Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau Statudol ar asesu addasrwydd person i roi triniaeth arbennig yng Nghymru

Dyroddir y Canllawiau Statudol hyn i awdurdodau lleol yng Nghymru o dan Adran 66 (11) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

29 Tachwedd 2024

llyw.cymru

# Cynnwys


1. Cefndir **1**
2. Diben y Canllawiau Statudol hyn **2**
3. Rhybuddiadau ac euogfarnau wedi eu disbyddu/heb eu disbyddu **3**
4. Troseddau perthnasol **5**
5. I bwy y mae’r Canllawiau Statudol hyn yn gymwys a phryd? **7**
6. Pennu addasrwydd person i roi triniaeth arbennig: materion i’w hystyried a chasglu tystiolaeth **8**
7. Ystyried euogfarnau heb eu disbyddu am droseddau perthnasol **12**
8. Enghreifftiau/senarios **14**


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG50989, ISBN digidol 978-1-83715-024-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# 1. Cefndir

1.1 Pasiwyd **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017** ('y Ddeddf') gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 16 Mai 2017, ac fe gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Mae **Rhan 4** o'r Ddeddf yn nodi'r gofynion i ymarferwyr sy'n rhoi 'triniaethau arbennig' yng Nghymru gael cynllun trwyddedu gorfodol.

Mae'r pedair triniaeth arbennig yn cael eu pennu yn **Adran 57** o'r Ddeddf (a'u diffinio ymhellach yn **Adran 94**) – ac maent yn cynnwys:

- aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych)
- tyllu'r corff
- electrolysis
- tatŵio (gan gynnwys colur lled-barhaol).

1.2 Bwriad y cynllun trwyddedu yw gwella a chynnal safonau atal a rheoli heintiau yn y diwydiant triniaethau arbennig a sicrhau diogelwch ac iechyd cleientiaid ac ymarferwyr fel ei gilydd.

1.3 Mae prif nodweddion **Rhan 4** o'r Ddeddf fel a ganlyn:

- Mae'n ofynnol i bersonau sy'n rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru gael eu trwyddedu i wneud hynny gan awdurdod lleol (os nad ydynt wedi eu hesemptio).
- Ni all deiliaid trwyddedau ond roi triniaethau arbennig mewn mangreoedd neu gerbydau sydd wedi eu 'cymeradwyo' gan awdurdod lleol oni bai bod y mangreoedd/cerbydau wedi eu hesemptio.
- Rhaid bodloni meini prawf penodedig wrth gyflwyno cais am drwydded triniaeth arbennig, ac mae hyn yn cynnwys cyflwyno tystysgrif datgeliad sylfaenol a ddyroddir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Rhaid i ddeiliaid trwyddedau gydymffurfio â'r amodau trwyddedu gorfodol i sicrhau eu bod yn cadw eu trwydded drwy gydol y cyfnod y'i caniateir ar ei gyfer.
- Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gadw cofrestr sy'n agored i'r cyhoedd o fangreoedd a cherbydau sydd wedi eu cymeradwyo a'r personau hynny sydd wedi eu trwyddedu i roi triniaethau arbennig.
- Caniateir i awdurdodau lleol godi ffioedd am weinyddu'r broses drwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig, ac am fonitro a gorfodi'r cynllun trwyddedu.
- Gall awdurdodau lleol gymryd camau ffurfiol yn erbyn deiliaid trwyddedau mewn achosion pan fônt wedi torri eu hamodau trwyddedu neu wedi torri gofynion y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys diddymu eu trwydded.
- O dan **Adran 66(11)** o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Canllawiau Statudol hyn i awdurdodau lleol ynghylch materion i'w hystyried wrth benderfynu a oes amheuaeth wedi ei chodi am addasrwydd ceisydd newydd neu ddeiliad trwydded i roi triniaeth arbennig, ac os felly, i ba raddau. Os yw ceisydd newydd neu ddeiliad trwydded wedi ei euogfarnu o drosedd berthnasol, mae'r awdurdod lleol yn cadw'r disgresiwn i ganiatáu/gwrthod/caniatáu cadw/dirymu trwydded triniaeth arbennig, os yw'n credu bod hynny'n briodol, gan ystyried natur y drosedd ac unrhyw driniaeth arbennig y mae'r cais/trwydded triniaeth

arbennig bresennol yn ymwneud â hi. Y prawf yw a yw'r amgylchiadau'n golygu bod amheuaeth wedi ei chodi ynghylch addasrwydd y ceisydd/deiliad trwydded i roi triniaeth arbennig i'r fath raddau fel na ddylid rhoi trwydded i'r ceisydd newydd/ na ddylid caniatáu i ddeiliad trwydded gadw'i drwydded. Gall yr awdurdod lleol benderfynu peidio â dyroddi trwydded/ dirymu'r drwydded bresennol, ac os felly mae'n rhaid iddo roi rhybudd i'r ceisydd bod y cais wedi cael ei wrthod/i ddeiliad trwydded o'r bwriad i ddiddymu ei drwydded. Nid yw euogfarn am drosedd berthnasol ond **yn ddilys i'w hystyried** gan yr awdurdod lleol os yw '**heb ei disbyddu**' ac felly mae euogfarnau sydd '**wedi eu disbyddu**' i'w **diystyru** gan yr awdurdod lleol.

# 2. Diben y Canllawiau Statudol hyn

2.1 Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau, ar ôl ystyried yr holl faterion perthnasol, eu bod yn rhoi trwyddedau i unigolion yr ystyrir eu bod yn 'addas' i roi triniaeth(au) arbennig i gleientiaid yng Nghymru. Byddant am sicrhau eu hunain bod unigolion y rhoddir trwydded triniaeth arbennig iddynt, neu ddeiliaid trwyddedau presennol sydd eisoes â thrwydded, yn unigolion sy'n meddu ar onestrwydd a chymeriad da ac yn peri cyn lleied â phosibl o risg i ddiogelwch a lles cleientiaid wrth roi triniaeth arbennig.

2.2 Diben y canllawiau statudol hyn yw cefnogi awdurdodau lleol wrth benderfynu a oes amheuaeth wedi ei chodi ynghylch '**addasrwydd ceisydd neu ddeiliad trwydded i roi triniaeth arbennig**' ac os felly, a oes amheuaeth wedi ei chodi i'r fath raddau y byddai'n amhriodol naill ai i roi trwydded i geisydd newydd neu ganiatáu i ddeiliad trwydded presennol gadw ei drwydded. Bydd cyfeirio at y canllawiau hyn yn sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ac yn sicrhau bod eu prosesau gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â darpar ddeiliaid trwyddedau a deiliaid trwyddedau presennol yn dryloyw, yn deg ac yn gymesur.

2.3 Mae 'addasrwydd i roi triniaeth arbennig' at ddiben Rhan 4 o'r Ddeddf yn ymwneud â gofynion **Adran 66** yn unig, hynny yw pan fo unigolyn wedi ei euogfarnu o drosedd berthnasol a bod yr euogfarn honno yn parhau '**heb ei disbyddu**'. Bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu a yw unigolyn yn 'addas i roi triniaeth arbennig' drwy roi sylw i: (i) natur ac amgylchiadau'r drosedd; ii) yr wybodaeth a ddarperir yn y canllawiau hyn.

2.4 Mae'r Canllawiau Statudol hyn yn gymwys pan fo unigolion wedi eu '**heuogfarnu o drosedd berthnasol**' a bod y drosedd honno 'heb ei disbyddu'. Nid yw'n gymwys mewn perthynas ag euogfarn am drosedd berthnasol sydd 'wedi ei disbyddu', ac nid yw'n gymwys ychwaith i droseddau nad ydynt yn berthnasol o dan **Adran 66** p'un a ydynt '**wedi eu disbyddu**' neu '**heb eu disbyddu**'.

2.5 I gynorthwyo awdurdodau lleol i benderfynu ar addasrwydd unigolyn i roi triniaeth arbennig, mae'r ddogfen Canllawiau Statudol hon felly'n amlinellu:

- beth sydd angen i awdurdodau lleol ei ystyried wrth benderfynu ar 'addasrwydd unigolyn i roi triniaeth arbennig'
- y materion y bydd angen i awdurdod lleol eu hystyried mewn perthynas â natur ac amgylchiadau'r drosedd berthnasol
- ystyriaethau pellach gan yr awdurdod lleol wrth benderfynu i ba raddau y mae amheuaeth wedi ei chodi ynghylch addasrwydd unigolyn i roi triniaeth arbennig oherwydd ei euogfarn 'heb ei disbyddu' am drosedd berthnasol
- yr angen i awdurdodau lleol ddogfennu'r sail resymegol dros eu proses gwneud penderfyniadau wrth benderfynu a yw caniatáu, adnewyddu, cadw, gwrthod neu ddirymu trwydded triniaethau arbennig yn briodol o dan amgylchiadau'r achos.

# 3. Rhybuddiadau ac euogfarnau wedi eu disbyddu/heb eu disbyddu

3.1 Mae pŵer yr awdurdod lleol i ddyroddi trwydded yn **bŵer disgresiwn** pan fo'r ceisydd wedi ei euogfarnu o drosedd berthnasol. Mae **Adran 66(3)** o'r Ddeddf yn datgan nad yw'n ofynnol i awdurdod lleol ddyroddi trwydded triniaeth arbennig i unigolyn sydd cael euogfarn am drosedd berthnasol. Mae **Adran 66(9)** yn egluro ymhellach mai dim ond pan fo euogfarn am drosedd berthnasol 'heb ei disbyddu' y caniateir ystyried yr euogfarn honno.

## (A) Gwahaniaethu rhwng 'euogfarnau' a 'rhybuddiadau'

3.2 Bydd yn bwysig i awdurdodau lleol wahaniaethu rhwng y termau 'euogfarn' a 'rhybuddiad'. Mae **Adran 66** yn cyfeirio at unigolyn yn cael ei 'euogfarnu' ac mae'n benodol yn ei gofyniad bod angen i awdurdodau lleol benderfynu ar 'addasrwydd' unigolion sydd wedi cael eu '**heuogfarnu**' o '**drosedd**' berthnasol. '**Euogfarn**' yw 'penderfyniad o euogrwydd gan lys Ynadon (gan banel o ynadon neu Farnwr Rhanbarth) neu gan Lys y Goron (gan reithgor a Barnwr Cylchdaith neu Gofiadur neu Farnwr Uchel Lys) mewn perthynas â throsedd benodol'. Gall euogfarn unigolyn fod wedi codi naill ai ar ôl i achos llys gael ei gynnal a bod yr unigolyn wedi ei gael yn euog a'i euogfarnu o'r drosedd, neu os yw'r unigolyn yn rhoi ple 'euog' i'r drosedd (ac na chynhelir achos), derbynnir y ple 'euog' a chaiff ei gofnodi'n ffurfiol gan y Llys gan euogfarnu'r unigolyn o'r drosedd honno.

3.3 **Nid** yw'r term '**rhybuddiad**' fodd bynnag yn euogfarn droseddol ac mae'n ymwneud â cheryddon, neu rybuddion, neu hysbysiadau cosb, a roddir gan yr heddlu, neu Wasanaeth Erlyn y Goron am fân droseddau. Nid yw'r

Ddeddf yn cynnwys cyfeiriad at 'rybuddiad' fel rhywbeth sy'n berthnasol at ddibenion Adran 66. Felly, at ddibenion ystyried addasrwydd unigolyn i roi triniaeth arbennig **nid yw'n ofynnol** i awdurdodau lleol ystyried unigolion sydd wedi derbyn 'rhybuddiad'.

## (B) Euogfarnau 'wedi eu disbyddu' a 'heb eu disbyddu'

3.4 Mae Adran 66(9) yn pennu bod euogfarn am drosedd berthnasol i'w diystyru os yw'r euogfarn 'wedi ei disbyddu' at ddibenion Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Deddf 1974) sy'n cefnogi'r gwaith o adsefydlu i gyflogaeth droseddwyr sydd wedi newid eu hymddygiad er gwell.

Mae euogfarn '**wedi ei disbyddu**':

- yn euogfarn droseddol sydd wedi cwblhau'r cyfnod adsefydlu gofynnol ac sydd wedyn wedi'i **thynnu oddi ar gofnod troseddol unigolyn**. Mae rhagor o wybodaeth am euogfarnau '**wedi eu disbyddu**' ar gael ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae euogfarn '**heb ei disbyddu**':

- yn euogfarn droseddol sy'n dal o **fewn ei chyfnod adsefydlu** ac felly nid oes digon o amser wedi mynd heibio i'r drosedd gael ei hystyried fel un sydd '**wedi ei disbyddu**'. Mae rhagor o wybodaeth am euogfarnau '**heb eu disbyddu**' ar gael ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

3.5 Mae manylion euogfarnau 'wedi eu disbyddu' a 'heb eu disbyddu' yn cael eu cadw ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC). Gellir cael gafael ar wybodaeth am gofnod troseddol unigolyn drwy wiriad yn system wirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

3.6 At ddibenion y Canllawiau Statudol hyn os yw unigolyn wedi ei euogfarnu o drosedd berthnasol, ac yr ystyrir bod yr euogfarn honno 'wedi ei disbyddu' yna nid yw Adran 66 o'r Ddeddf **yn gymwys**, ac felly **nid yw'n ofynnol** i awdurdodau lleol ddilyn y ddogfen Canllawiau Statudol hon gan y gellir diystyru'r euogfarn wedi ei disbyddu.

3.7 Felly, mae'r agwedd ar ddisgresiwn mewn perthynas â'r Canllawiau Statudol hyn ar gyfer awdurdodau lleol yn ymwneud â'r euogfarnau hynny am droseddau perthnasol sydd 'heb eu disbyddu'.

# 4. Troseddau perthnasol

Diffinnir '**trosedd berthnasol**' o dan Adran 66(8)(a) a (b) o'r Ddeddf:

## Troseddau Rhan 4

### Adran 66(8)(a) trosedd o dan Ran 4 neu o dan Ran 5 (rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff) o'r Ddeddf:

**Adran 82 (Troseddau sy'n ymwneud â'r system trwyddedu a chymeradwyo):**

- Person sy'n torri Adran 58 (gofyniad trwyddedu).
- Person sy'n torri gwaharddiad (o dan Adran 61(3)(c), mewn hysbysiad a roddir o dan Adran 61(1) (dynodi person Adran 58(3)).
- Person sydd, heb achos rhesymol, yn torri'r gofyniad yn Adran 69(2) (gofyniad i gael cymeradwyaeth).
- Person sydd, heb achos rhesymol, yn torri hysbysiad o dan Adran 77 (hysbysiadau stop).
- Person sydd, heb achos rhesymol, yn torri hysbysiad o dan Adran 78 (hysbysiadau camau adfer i ddeiliad trwydded).
- Person sydd, heb achos rhesymol, yn torri hysbysiad o dan Adran 79 (hysbysiad camau adfer ar gyfer mangre).
- Person sydd, mewn cais i ddyroddi, amrywio neu adnewyddu trwydded triniaeth arbennig neu gais am gymeradwyaeth i fangre neu gerbyd o dan Adran 70:
  (a) yn gwneud datganiad sy'n anwir neu'n gamarweiniol, a
  (b) naill ai'n gwybod ei fod yn anwir neu'n gamarweiniol neu'n ddi-hid o ran a yw'n anwir neu'n gamarweiniol.

**Pe bai person yn cael ei ddyfarnu'n euog, byddai'n agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy (anghyfyngedig).**

**Adran 89 (Rhwystro etc. swyddogion):**

- Person sy'n rhwystro'n fwriadol swyddog awdurdodedig sy'n arfer swyddogaethau o dan Adran 84-88.
- Person sydd, heb achos rhesymol, yn methu â darparu i swyddog awdurdodedig gyfleusterau sy'n ofynnol yn rhesymol at ddibenion Adran 88(1).
- Person sydd, heb achos rhesymol, yn methu â chydymffurfio â gofyniad o dan Adran 88(1)(b) neu (d).

**Yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.**

# Troseddau o dan Ran 5 (rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff)

## Adran 66(8)(a) trosedd o dan Ran 4 neu o dan Ran 5 (rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff) o'r Ddeddf:

**Adran 95 (Y drosedd o roi neu wneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn):**

- Rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person yng Nghymru sydd o dan 18 oed.
- Gwneud trefniadau i roi, yng Nghymru, dwll mewn rhan bersonol o gorff person sydd o dan 18 oed.

**Pe bai person yn cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd o'r fath, byddai'n agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy (anghyfyngedig).**

**Adran 104 (Rhwystro etc. cwnstabl neu swyddog):**

- Unrhyw berson sy'n rhwystro'n fwriadol gwnstabl neu swyddog awdurdodedig sy'n arfer swyddogaethau o dan Adran 99 – 103.
- Unrhyw berson sydd, heb achos rhesymol, yn methu â darparu i gwnstabl neu swyddog awdurdodedig gyfleusterau y mae eu hangen yn rhesymol.
- Unrhyw berson sydd, heb achos rhesymol, yn methu â chydymffurfio â gofyniad o dan Adran 103(1)(b) neu (d).

**Pe bai person yn cael ei ddyfarnu'n euog drosedd o'r fath, byddai'n agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.**

**Adran 66(8)(b) trosedd (pa un ai o dan gyfraith Cymru a Lloegr neu rywle arall) sydd:**

(i) yn ymwneud â thrais

(ii) o natur rywiol, neu'n ymwneud â deunydd neu ddelweddau rhywiol

(iii) yn golygu tatŵio plentyn o dan 18 oed

(iv) yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gwaith, neu

(v) yn golygu methiant i gydymffurfio â gofyniad mewn cynllun ar gyfer trwyddedu neu fel arall ganiatáu neu reoleiddio cyflawni gweithgaredd sy'n driniaeth arbennig at ddibenion y Ddeddf hon.

# 5. I bwy y mae'r Canllawiau Statudol hyn yn gymwys a phryd?

## (A) I bwy y mae'r canllawiau hyn yn gymwys?

5.1 Mae'r Canllawiau Statudol hyn **yn gymwys i bob awdurdod lleol yng Nghymru**.

5.2 **Eraill a allai gael elwa ar fod yn ymwybodol o'r canllawiau hyn** – Er nad yw'r Canllawiau Statudol hyn wedi'u llunio i'w defnyddio gan geiswyr am drwydded driniaeth arbennig neu ddeiliaid trwydded presennol, gall fod o gymorth iddynt i ddeall y materion y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol eu hystyried wrth benderfynu ar addasrwydd person i roi triniaeth arbennig, er enghraifft:

- Mae'r unigolyn (fel ceisydd newydd) wedi gwneud datganiad o euogfarn(au) heb eu disbyddu am drosedd(au) perthnasol.
- Mae gan yr unigolyn (fel deiliad trwydded presennol) euogfarn heb ei disbyddu (newydd) am drosedd berthnasol y mae'n gwneud yr awdurdod lleol yn ymwybodol ohoni yn unol â gofynion ei amodau trwyddedu gorfodol. (Dalier sylw: os yw'r euogfarn newydd honno heb ei disbyddu yn ymwneud â throsedd berthnasol o dan Ran 4 neu Ran 5 o'r Ddeddf, yna bydd yr awdurdod lleol a ddyroddodd y drwydded triniaeth arbennig eisoes yn ymwybodol gan mai hwy fydd wedi dwyn yr euogfarn honno).
- Mae'r awdurdod lleol wedi dod yn ymwybodol (o ffynhonnell allanol) o euogfarn heb ei disbyddu gan geisydd newydd neu gan ddeiliad trwydded presennol am drosedd berthnasol.

## (B) Pryd mae'r Canllawiau Statudol hyn yn gymwys – sefyllfaoedd pan fo'n rhaid dilyn y canllawiau hyn

5.3 Mae'r Canllawiau Statudol hyn yn gymwys a **rhaid i** awdurdodau lleol **eu dilyn** ym mhob achos pan fo gan unigolyn euogfarn heb ei disbyddu am drosedd berthnasol (fel y nodir yn Adran 66(8)(a) neu (b) o'r Ddeddf)). Gall y sefyllfaoedd gynnwys y canlynol:

- Mae'r unigolyn yn geisydd newydd.
- Mae'r unigolyn yn ddeiliad trwydded presennol sy'n gwneud cais i adnewyddu ei drwydded.
- Mae'r unigolyn yn ddeiliad trwydded presennol sy'n gwneud cais am amrywiad i'w drwydded.
- Daw'r awdurdod lleol yn ymwybodol bod gan ddeiliad trwydded presennol euogfarn heb ei disbyddu am drosedd berthnasol a ragflaenodd dyroddi'r drwydded a lle na chafodd yr awdurdod lleol wybod am yr euogfarn heb ei disbyddu ar adeg caniatáu'r drwydded.
- Mae gan ddeiliad trwydded presennol euogfarn heb ei disbyddu am drosedd berthnasol yn ystod cyfnod y drwydded a naill y gwnaed yr awdurdod lleol yn ymwybodol o'r euogfarn heb ei disbyddu gan y deiliad trwydded presennol (yn unol â'r amodau trwyddedu gorfodol) neu ni wnaed yr awdurdod lleol yn ymwybodol o'r euogfarn heb ei disbyddu gan y deiliad trwydded presennol a ffynhonnell arall a ddaeth â'r mater i'w sylw.

## (C) Pryd nad yw'r Canllawiau Statudol hyn yn gymwys

5.4 **Nid** yw'r Canllawiau Statudol hyn **yn gymwys**:

(a) i geisiadau am dystysgrif cymeradwyo eiddo neu gerbyd

(b) pan fo'r unigolyn (ceisydd neu ddeiliad trwydded presennol) wedi ei 'gyhuddo' o 'drosedd berthnasol', ond yn dilyn ei achos llys ni chafodd ei euogfarnu o'r drosedd honno

(c) pan fo'r unigolyn (ceisydd neu ddeiliad trwydded presennol) wedi cael euogfarn am drosedd berthnasol sydd wedi ei disbyddu

(d) pan fo'r unigolyn (ceisydd neu ddeiliad trwydded presennol) wedi cael euogfarn am unrhyw droseddau nad ydynt yn droseddau perthnasol at ddibenion **Adran 66(8)(a) neu (b)**.

# 6. Pennu addasrwydd person i roi triniaeth arbennig: materion i'w hystyried a chasglu tystiolaeth

## Materion i'w hystyried

6.1 Wrth benderfynu ar addasrwydd unigolyn i roi triniaeth arbennig ac oherwydd bod ganddo euogfarn heb ei disbyddu am 'drosedd berthnasol' mae amheuaeth wedi ei chodi ynghylch ei addasrwydd mewn perthynas â'i allu i roi triniaeth arbennig y mae wedi gwneud cais i gael ei drwyddedu ar ei chyfer, neu y mae eisoes wedi'i drwyddedu ar ei chyfer, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried yn llawn yr holl ffeithiau ar gyfer pob achos unigol i benderfynu a yw'n briodol caniatáu i geisydd gael trwydded, neu i ddeiliad trwydded presennol gadw ei drwydded.

6.2 Rhaid i'r awdurdod lleol fod yn fodlon bod ganddo ddigon o wybodaeth gan y ceisydd neu'r deiliad trwydded presennol sy'n ymwneud â'i euogfarn heb ei disbyddu, ac er mwyn eu galluogi i ystyried y mater yn llawn ac yn drylwyr. Os nad yw hynny'n wir, gall yr awdurdod lleol ofyn am ragor o wybodaeth gan yr unigolyn, ac os oes angen, gellid cyflawni hyn drwy gyfarfod â'r unigolyn i drafod yn fanylach materion yr euogfarn heb ei disbyddu.

6.3 Rhaid ystyried pob unigolyn, ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol a'r dystiolaeth ategol sy'n ymwneud â'i achos penodol, **yn ôl eu rhinweddau eu hunain**. Mae hyn yn bwysig oherwydd, os o ganlyniad i hynny y gwrthodir trwydded triniaeth arbennig i unigolyn, neu os yw ei drwydded triniaeth arbennig i'w dirymu ar y sail **nad yw'r unigolyn yn cael ei ystyried** yn 'addas' i roi triniaeth arbennig y mae'n gwneud cais i gael ei drwyddedu ar ei chyfer/sy'n ymwneud â'i drwydded bresennol, yna rhaid i'r awdurdod lleol allu cyfiawnhau ei benderfyniad gyda rhesymau clir.

6.4 **Ni ddylid rhoi** trwydded i geisydd os yw'r awdurdod lleol, ar ôl ystyried yn llawn, yn fodlon oherwydd euogfarn heb ei disbyddu y ceisydd am drosedd berthnasol, bod amheuon digonol wedi eu codi ynghylch addasrwydd y person i roi triniaeth arbennig.

6.5 Yn yr un modd, **ni ddylid caniatáu** i ddeiliad trwydded presennol sydd ag euogfarn newydd heb ei disbyddu am drosedd berthnasol **gadw ei drwydded** os yw'r awdurdod lleol, ar ôl ystyried yn llawn, yn fodlon bod amheuon digonol wedi eu codi ynghylch 'addasrwydd' y person i roi triniaeth arbennig. Yn yr achos hwn, **dylai'r** awdurdod lleol **ddirymu'r drwydded**.

6.6 **Pan fo'n berthnasol** i'r achos/euogfarn heb ei disbyddu/trosedd berthnasol, **rhaid** i'r awdurdod lleol ystyried:

(i) gwybodaeth a ddarperir yn ffurflen gais yr unigolyn ar gyfer trwydded triniaeth arbennig

(ii) gwybodaeth a ddarperir gan ddeiliad trwydded presennol os bydd euogfarn am drosedd berthnasol yn digwydd yn ystod cyfnod ei drwydded bresennol

(iii) gwybodaeth ychwanegol a gafwyd gan y ceisydd/deiliad trwydded yn ystod trafodaeth neu gyfarfod a drefnwyd gan yr awdurdod lleol gyda'r bwriad o sicrhau mwy/digon o wybodaeth sy'n ymwneud â'r euogfarn heb ei disbyddu a'r drosedd berthnasol fel y gall yr awdurdod lleol rhoi ystyriaeth lawn i'r mater

(iv) unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ysgrifenedig ychwanegol neu atodol a ddarperir gan yr unigolyn

(v) tystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn nhystysgrif DBS sylfaenol y ceisydd, a/neu (pan fo'n gymwys) y dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn nhystysgrif cofnod troseddol dramor/tystysgrif cymeriad da y ceisydd

(vi) (yn achos deiliad trwydded bresennol) gwybodaeth yng nghofnodion yr awdurdod lleol ei hun, neu'r cofnodion a ddelir gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a/neu'r DU fel y bo'n briodol

(vii) unrhyw wybodaeth gredadwy a pherthnasol yr hysbyswyd yr awdurdod lleol amdani gan bartïon eraill – er enghraifft, rhybuddion neu wybodaeth a ddarperir gan aelodau'r cyhoedd, neu ddeiliaid trwyddedau triniaethau arbennig eraill neu fusnesau triniaethau arbennig eraill

(viii) natur ac amgylchiadau'r drosedd berthnasol, er enghraifft:

- Math a pherthnasedd y drosedd berthnasol ac euogfarn/euogfarnau heb eu disbyddu mewn perthynas ag addasrwydd y person i roi'r driniaeth/triniaethau arbennig
- difrifoldeb yr euogfarn/euogfarnau heb eu disbyddu, o ran effaith neu effaith bosibl ar iechyd, ddiogelwch a lles cleient y byddai'r unigolyn yn rhoi triniaeth arbennig iddo
- unrhyw achosion lle mae'r unigolyn yn aildroseddu

- nifer yr euogfarnau heb eu disbyddu am droseddau perthnasol yn gyffredinol ac effaith gronnol yr euogfarnau hynny sydd heb eu disbyddu
- y ddedfryd a osodwyd am y drosedd berthnasol/euogfarn/euogfarnau
- y cyfnod o amser a aeth heibio ers yr euogfarn/euogfarnau heb eu disbyddu
- oedran y person ar adeg y drosedd berthnasol/euogfarn heb ei disbyddu, ac
- unrhyw amgylchiadau lliniarol y mae'r awdurdod lleol o'r farn eu bod yn berthnasol i'w hystyried.

(ix) cymeriad, gonestrwydd a dibynadwyedd yr unigolyn mewn perthynas â rôl ymarferydd sy'n gweithio yn yr amgylchedd cyswllt agos sy'n bodoli wrth roi triniaeth arbennig i gleientiaid – tystiolaeth a allai fod ar gael i gefnogi:

- bod yr unigolyn yn cael ei ystyried yn unigolyn cyfrifol
- y gellir ymddiried yn yr unigolyn yn rôl deiliad trwydded triniaeth arbennig
- nad yw'r unigolyn yn codi unrhyw bryderon ynghylch rhoi unrhyw driniaethau arbennig i gleientiaid
- nad yw'r unigolyn yn codi unrhyw bryderon ynghylch y ffaith y bydd yn gweithio gyda chyswllt personol mor agos â chleientiaid ac mewn lleoliad/amgylchedd cyswllt agos sy'n gyfystyr â'r diwydiant triniaethau arbennig
- nad yw'r unigolyn yn codi unrhyw bryderon o risgiau posibl i les, iechyd neu ddiogelwch cleientiaid wrth ddarparu triniaeth arbennig.

(x) unrhyw wybodaeth arall o ffynonellau eraill y gallai awdurdodau lleol ddymuno ei chael, ond y bydd angen iddynt sicrhau ei bod yn gredadwy ac yn berthnasol i'r drosedd berthnasol a'r euogfarn heb ei disbyddu y mae angen ei hystyried.

6.7 Yn ogystal, bydd angen i awdurdodau lleol gofio na fydd trosedd sy'n ymwneud ag euogfarn heb ei disbyddu unigolyn o bosibl yn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn 'drosedd berthnasol'. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod **Adran 66(8)(b)(i)** a (ii) o'r Ddeddf wedi'i geirio yn y fath fodd fel ei bod yn golygu y bydd **unrhyw drosedd sy'n ymwneud â thrais, neu sydd o natur rywiol, neu sy'n ymwneud â deunydd neu ddelweddau rhywiol** yn cael ei hystyried yn drosedd berthnasol. Felly, mae hyn yn rhoi elfen o ddisgresiwn i awdurdodau lleol wrth benderfynu a ydynt, ar ôl ystyried manylion ac amgylchiadau llawn y drosedd sy'n ymwneud ag euogfarn heb ei disbyddu yr unigolyn, o'r farn bod y drosedd yn drosedd berthnasol ac felly bod yn rhaid ei hystyried.

6.8 Bydd yr awdurdod lleol yn ymwybodol o'r ffaith os yw unigolyn, yn fwriadol neu'n ddi-hid, yn darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol am unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu, mae'n cyflawni trosedd (**Adran 68**/**Adran 82(7)(a) a (b)**) a gall hyn ei arwain at ddirymu ei drwydded a/neu ei ddirwyo.

6.9 Yn y pen draw, ar ôl ystyried yn ofalus yr holl wybodaeth a gasglwyd sy'n benodol i'r achos, rhaid i'r awdurdod lleol fod yn gwbl fodlon nad yw'r unigolyn yn peri risg i les neu ddiogelwch cleientiaid y bydd yn rhoi triniaethau arbennig iddynt ac nad oes amheuaeth wedi ei chodi ynghylch ei addasrwydd i roi triniaeth arbennig. Ar y sail hon, bydd yr awdurdod lleol yn gallu caniatáu'r drwydded/caniatáu i ddeiliad trwydded presennol gadw ei drwydded.

## Casglu tystiolaeth

6.10 Bydd nifer o wahanol ffynonellau lle gall awdurdodau lleol gael tystiolaeth a gwybodaeth i gynorthwyo eu hystyriaethau wrth benderfynu ar addasrwydd unigolyn i roi triniaeth arbennig (pan fo gan yr unigolyn hwnnw euogfarn heb ei disbyddu am drosedd berthnasol). Er bod arwydd o'r ffynonellau hynny eisoes wedi'i gynnwys ym mharagraff 6.6 uchod, fe'u nodir isod er mwyn sicrhau ei bod yn haws cyfeirio atynt ac i awdurdodau lleol nodi nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a bod awdurdodau lleol yn gallu cael gwybodaeth o ffynonellau eraill ar yr amod ei bod yn berthnasol i'r drosedd berthnasol a'r euogfarn heb ei disbyddu y mae angen ei hystyried:

(a) **Ffurflen gais y ceisydd** – a ddylai gynnwys gwybodaeth am euogfarn yr unigolyn am drosedd berthnasol.

(b) **Deiliad trwydded presennol** – pan fo'n datgelu i'r awdurdod lleol (yn unol â gofynion ei amodau trwyddedu gorfodol) euogfarn newydd am drosedd berthnasol yn ystod cyfnod ei drwydded bresennol.

(c) **Dogfennau llys** – yn ymwneud â'r ceisydd neu ddeiliad y drwydded a allai ddarparu gwybodaeth fwy cyflawn am y drosedd berthnasol y mae gan yr unigolyn euogfarn amdani – os nad oes modd cael gafael ar y papurau llys cymwys gan yr unigolyn yn uniongyrchol, efallai y bydd yr awdurdod lleol yn dymuno cysylltu â'r llys priodol a fu'n ymdrin ag euogfarn yr unigolyn.

(d) **Tystysgrif datgelu sylfaenol Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd unigolyn** – fel y darperir yn rheolaidd gan geiswyr yn unol â meini prawf y cais am drwydded), a/neu.

(e) **(Pan fo hynny'n berthnasol) Tystysgrif cofnod troseddol/tystysgrif o ymddygiad da dramor yr unigolyn** – a ddarperir gan y ceiswyr hynny nad ydynt yn gymwys i gael tystysgrif sylfaenol y DBS yn y DU, neu pan fo'r unigolyn hwnnw wedi treulio mwy na chwe mis yn byw y tu allan i'r DU ac yn yr achos hwnnw byddai angen iddo gyflwyno Tystysgrif DBS sylfaenol ar gyfer ei gyfnod yn y DU yn ogystal â thystysgrif cofnod troseddol dramor ar gyfer yr amser a dreuliodd y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

(f) **(Pan fo'n berthnasol) cofnodion achos a chofnodion gorfodi yr awdurdod lleol ei hun a/neu wybodaeth a rennir gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru neu yn y DU** – yn enwedig os gallant ddarparu gwybodaeth am hanes euogfarnau blaenorol ac euogfarnau heb eu disbyddu am unrhyw droseddau perthnasol sydd gan yr unigolyn.

(g) **Partïon eraill** – er enghraifft, drwy wybodaeth a geir gan aelodau o'r cyhoedd neu ddeiliaid trwydded triniaethau arbennig eraill neu fusnesau triniaethau arbennig eraill (a all fod yn ymwybodol o euogfarn heb ei disbyddu unigolyn am drosedd berthnasol), neu wybodaeth a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdod lleol arall.

(h) **Cyngor cyfreithiol** – hwyrach y bydd yr awdurdod lleol yn dymuno ceisio cyngor cyfreithiol priodol os a phan fo awdurdod lleol yn ystyried bod angen gwneud hynny.

# 7. Ystyried euogfarnau heb eu disbyddu am droseddau perthnasol

7.1 Mae'r adran hon yn darparu rhagor o wybodaeth i awdurdodau lleol am y broses i'w dilyn wrth iddynt ystyried ceiswyr a deiliaid trwydded presennol sydd ag euogfarnau 'heb eu disbyddu' neu euogfarnau newydd am unrhyw droseddau perthnasol. Mae hon yn ddolen ddefnyddiol y gallai fod o gymorth i awdurdodau lleol gyfeirio ati fel rhan o'u trafodaethau – [www.gov.uk/tell-employer-or-college-about-criminal-record/check-your-conviction-caution](www.gov.uk/tell-employer-or-college-about-criminal-record/check-your-conviction-caution)

## Ceiswyr newydd am drwydded triniaeth arbennig, a deiliaid trwydded presennol sy'n gwneud cais i adnewyddu neu amrywio eu trwydded

7.2 Pan fo (i) ceisydd newydd yn gwneud cais am drwydded triniaeth arbennig, neu (ii) ddeiliad trwydded presennol yn gwneud cais i adnewyddu neu amrywio ei drwydded, ac mae'r unigolyn wedi datgan euogfarn heb ei disbyddu am drosedd berthnasol, **ni chaiff** yr awdurdod lleol gymeradwyo'r cais yn awtomatig, hyd yn oed os yw pob agwedd arall ar ffurflen gais a dogfennaeth ategol yr unigolyn wedi'u cwblhau ac mewn trefn.

7.3 Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried y gofynion a nodir yn **Adran 66(1) i (7)** o'r Ddeddf ac adran 6 o'r Canllawiau hyn ac ystyried yn llawn ffeithiau'r achos sy'n ymwneud â'r drosedd berthnasol a'r euogfarn heb ei disbyddu a phenderfynu a yw'n ystyried bod amheuaeth wedi ei chodi ynghylch addasrwydd yr unigolyn i roi'r driniaeth arbennig y mae ei gais yn ymwneud â hi i'r fath raddau fel y byddai'n amhriodol rhoi trwydded triniaeth arbennig iddo/adnewyddu neu amrywio ei drwydded bresennol.

7.4 Bydd awdurdodau lleol yn dymuno nodi'r wybodaeth a ddarperir a'r elfen o ddisgresiwn a roddir iddynt ym mharagraff 6.7 o adran 6 o'r Canllawiau hyn sy'n ymwneud ag unrhyw euogfarnau am droseddau sydd hefyd yn ymwneud â thrais, neu sydd o natur rywiol, neu sy'n ymwneud â deunydd neu ddelweddau rhywiol gan fod yr elfennau hynny **yn** droseddau perthnasol a phan fo'n briodol, dylid eu hystyried fel rhan o'u hystyriaethau o'r achos ger eu bron.

7.5 Os yw'r awdurdod lleol yn ystyried bod amheuaeth wedi ei chodi i'r fath raddau ynghylch addasrwydd unigolyn i roi triniaeth arbennig yna **ni chaiff** ganiatáu'r drwydded (**Adran 66(6)(a)**) a rhaid iddo hysbysu'r ceisydd (**Adran 66(6)(b)**) bod ei gais am drwydded newydd i roi triniaeth arbennig neu i adnewyddu/amrywio ei drwydded yn cael ei wrthod yn llwyr, neu'n cael ei wrthod mewn perthynas â rhoi un neu ragor o driniaethau arbennig **penodol**.

7.6 Rhaid i awdurdod lleol gael sail glir, gymesur a digonol wrth gyfleu penderfyniad i wrthod cais. Rhaid i'r hysbysiad nodi'r rhesymau llawn dros wrthod, a darparu'r holl fanylion angenrheidiol am y sylwadau y mae gan yr unigolyn yr hawl i'w gwneud i Bwyllgor Trwyddedu'r awdurdod lleol, a'i lwybrau apelio pellach i'r Llysoedd (**Atodlen 3**, paragraffau 15 i 20).

7.7 Os, ar ôl ei ystyriaeth drwyadl, fodd bynnag, y mae'r awdurdod lleol yn fodlon, er gwaethaf yr euogfarn heb ei disbyddu am drosedd berthnasol **nad oes** amheuaeth wedi ei chodi ynghylch addasrwydd yr unigolyn mewn perthynas â rhoi triniaeth(au) arbennig perthnasol, yna **rhaid** i'r awdurdod lleol:

(i) **naill ai** – ddyroddi'r drwydded triniaeth arbennig i'r ceisydd newydd (**Adran 66(5)**)

(ii) **neu** – prosesu'r adnewyddiad ar gyfer y drwydded triniaeth arbennig i'r deiliad trwydded presennol (**Adran 67** a **66(5)**)

(iii) **neu** – prosesu'r amrywiad i'r drwydded triniaeth arbennig ar gyfer y deiliad trwydded presennol (**Atodlen 3 paragraff 13(1)(b)** a **66(5)**.

## Deiliaid trwydded presennol wedi eu heuogfarnu o drosedd berthnasol yn ystod tymor eu trwydded bresennol

7.8 Os yw deiliad trwydded bresennol wedi ei euogfarnu o drosedd berthnasol yn ystod cyfnod tair blynedd ei drwydded bresennol ac wedi hysbysu'r awdurdod lleol o hyn, neu os yw'r awdurdod lleol wedi cael gwybod fel arall am yr euogfarn newydd hon, **rhaid** i'r awdurdod lleol ystyried yn drylwyr ffeithiau'r achos, gan ystyried adran 6 o'r Canllawiau hyn, yr adrannau cymwys o'r Ddeddf (**Adran 68**). Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a oes amheuaeth wedi ei chodi (ai peidio) ynghylch addasrwydd deiliad y drwydded i roi un neu ragor neu'r cyfan o'r triniaethau arbennig sy'n ymwneud â'i drwydded bresennol.

7.9 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod amheuaeth **wedi** ei chodi ynghylch addasrwydd deiliad y drwydded, rhaid iddo hysbysu deiliad y drwydded (**Adran 68(1)(a) neu (b)**) bod ei drwydded i'w dirymu, naill ai yn ei chyfanrwydd, neu ei dirymu i'r graddau y mae'n awdurdodi rhoi un neu ragor o driniaethau arbennig penodol.

7.10 Rhaid i awdurdod lleol gael sail glir, gymesur a digonol wrth gyfleu penderfyniad i wrthod cais. Rhaid i'r hysbysiad nodi'r rhesymau llawn dros wrthod, a darparu'r holl fanylion angenrheidiol am y llwybr apêl i'r Llysoedd (**Atodlen 3, paragraffau 18 i 20**).

7.11 Os, ar ôl ystyried yn drwyadl, fodd bynnag, y mae'r awdurdod lleol yn fodlon, er gwaethaf yr euogfarn newydd am drosedd berthnasol, **nad oes** amheuaeth wedi ei chodi ynghylch addasrwydd yr unigolyn mewn perthynas â rhoi un neu ragor neu'r cyfan o'r triniaethau arbennig y mae wedi'i drwyddedu i'w rhoi, yna **rhaid** i'r awdurdod lleol **ganiatáu** i ddeiliad y drwydded gadw ei drwydded bresennol ar gyfer triniaeth arbennig.

# 8. Enghreifftiau/senarios

8.1 Ffuglen bur yw'r sefyllfaoedd a ddarperir yn yr adran ac fe'u darperir fel enghreifftiau yn unig – o ganlyniad nid ydynt yn cael eu cyfleu fel, **nac** i'w cymryd fel, canllawiau neu gamau gweithredu diffiniol i awdurdodau lleol lynu wrthynt.

Rhaid i awdurdodau lleol gofio bod yn rhaid ystyried yn llawn bob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol a thystiolaeth ategol sy'n ymwneud â'r achos penodol hwnnw:

## Trosedd rywiol

**Mae gan A euogfarn flaenorol am weithgaredd rhywiol gyda phlentyn. Cafodd y drosedd ei chyflawni 10 mlynedd yn ôl. Roedd A yn 17 pan gafodd ei euogfarnu – roedd ei gariad ar y pryd yn 15 ac roeddent mewn perthynas gydsyniol. Nid oes dim byd tebyg wedi digwydd ers hynny. Mae A yn bwriadu gwneud cais am drwydded triniaethau arbennig i barhau â'r busnes tatŵio y mae wedi'i sefydlu a'i reoli'n llwyddiannus am y pum mlynedd ddiwethaf.**

Mae'n bosibl y bydd euogfarn **A** yn cael ei dosbarthu fel un heb ei disbyddu gan fod hyn yn dibynnu ar nifer o wahanol ffactorau:

- Os yw euogfarn **A** yn cael ei hystyried yn un sydd **wedi ei disbyddu** nid yw'n ofynnol i **A** ddatgan yr euogfarn hon ar ei ffurflen gais.
- Os yw euogfarn **A** yn cael ei hystyried yn un sydd **heb ei disbyddu** rhaid i **A** ddatgan yr euogfarn hon ar ei ffurflen gais, a bydd yr euogfarn **heb ei disbyddu** hefyd yn ymddangos ar ei dystysgrif DBS sylfaenol. Yn ogystal, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried yr achos yn llawn gan fod hon yn euogfarn **heb ei disbyddu** o natur rywiol sy'n drosedd berthnasol o dan y Ddeddf.

Efallai y bydd yr awdurdod lleol yn dymuno siarad ag **A** am yr euogfarn i gael rhagor o fanylion. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth yn llawn gan gynnwys oedran **A** ar adeg y drosedd, y gosb a roddwyd i **A** am yr euogfarn (e.e. os rhoddwyd dedfryd o garchar), yr amgylchiadau penodol o amgylch yr achos fel ei berthynas â'i gariad, y cyfnod o amser sydd wedi mynd heibio ers hynny, a'r ffaith na fu rhagor o euogfarnau.

Ar ôl ei ystyried, efallai na fydd yr awdurdod lleol yn dymuno caniatáu trwydded triniaeth arbennig ac felly byddai angen iddynt hysbysu **A** o'u bwriad i wrthod caniatáu trwydded. Bydd angen i'r hysbysiad nodi'r sail resymegol lawn dros wrthod. Caniateir i **A** gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Trwyddedu, mynychu'r gwrandawiad a chyflwyno ei achos. Byddai'r Pwyllgor Trwyddedu yn cyrraedd ei ganlyniad ar sail y dystiolaeth a ffeithiau llawn yr achos fel y darperir gan yr awdurdod lleol. Os bydd penderfyniad yr awdurdod lleol yn cael ei gadarnhau gan y Pwyllgor Trwyddedu hysbysir **A** o'i hawl i apelio i'r Llys Ynadon a Llys y Goron.

## Dynladdiad (oherwydd colli rheolaeth)

**Cafwyd G yn euog o ddynladdiad oherwydd colli rheolaeth ar ôl iddi ladd ei gŵr treisgar 20 mlynedd yn ôl. Nid oedd ganddi unrhyw euogfarnau blaenorol. O ystyried amgylchiadau lliniarol blynyddoedd o gam-drin domestig rheolaidd a ddioddefodd gan ei gŵr, cafodd ddedfryd o chwe blynedd yn y carchar, ond cafodd ei rhyddhau o'r carchar ar ôl tair blynedd am ymddygiad da. Mae cyfnod sylweddol o amser wedi mynd heibio ers iddi gael ei rhyddhau ac nid yw G wedi cyflawni unrhyw droseddau ers hynny. Mae hi wedi bod yn hyfforddi fel ymarferydd tyllu'r corff ac yn bwriadu gwneud cais am drwydded triniaeth arbennig.**

Mae'n debygol y bydd angen i **G** ddatgan yr euogfarn hon ac y bydd ei thystysgrif DBS sylfaenol hefyd yn datgelu'r euogfarn. Mae'n bosibl na fydd yr awdurdod lleol yn dymuno caniatáu'r drwydded triniaeth arbennig yn awtomatig (gan dybio bod yr holl ddogfennau eraill a'r ffurflen gais mewn trefn) gan fod yr euogfarn yn ymwneud â thrais ac felly yn cael ei hystyried yn drosedd berthnasol o dan y Ddeddf. Efallai y bydd yr awdurdod lleol yn dymuno siarad ag **G** er mwyn deall amgylchiadau'r drosedd yn well. Byddai angen i ystyriaethau'r awdurdod lleol ganolbwyntio ar y ffaith a oes amheuaeth wedi ei chodi ynghylch addasrwydd **G** i roi triniaethau tyllu'r corff ac os felly, i ba raddau.

Ar ôl siarad ag **G** ac ystyried yn llawn yr holl ffeithiau lliniarol a'i disgrifiad hi o'r drosedd, efallai y bydd yr awdurdod lleol yn gwbl fodlon ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a holl fanylion yr achos a phenderfynu **nad oes amheuaeth wedi ei chodi** ynghylch addasrwydd **G** i roi triniaaethau tyllu'r corff a'u bod yn fodlon ar y sail honno i fwrw ymlaen i ddyroddi trwydded triniaeth arbennig iddi.

## Nifer o euogfarnau blaenorol

**Mae gan S nifer o euogfarnau blaenorol am ddifrod troseddol a thresmasu ac un o wrthsefyll cael ei harestio, pan oedd yn ei harddegau ac yn artist graffiti. Ers hynny mae hi wedi symud i'r maes tatŵio fel ffordd o ddatblygu ei chelf. Mae hi wedi bod yn hyfforddi yn stiwdio ymarferydd arall wrth ddysgu sgiliau tatŵio ac mae hi eisiau gwneud cais am drwydded triniaeth arbennig.**

Ni fyddai angen i **S** ddatgan ei heuogfarnau ar ei ffurflen gais oni bai eu bod **heb eu disbyddu**, ac os felly, byddent yn ymddangos ar ei thystysgrif DBS. Os yw'r euogfarnau heb eu disbyddu bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried a yw'r euogfarnau heb eu disbyddu yn ymwneud â throsedd berthnasol. Yn y sefyllfa hon, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol yn diystyru'r euogfarnau heb eu disbyddu am ddifrod troseddol a thresmasu oherwydd eu bod yn annhebygol o gael eu hystyried yn droseddau perthnasol o dan y Ddeddf.

Fodd bynnag, gall yr awdurdod lleol ofyn am ragor o wybodaeth a gofyn cwestiynau i **S** am yr euogfarn heb ei disbyddu am 'wrthsefyll cael ei harestio' er mwyn penderfynu a oedd yr euogfarn yn ymwneud â thrais (sy'n drosedd berthnasol o dan y Ddeddf). Os, ar ôl ymchwilio ymhellach, y mae'r awdurdod lleol yn fodlon nad oedd unrhyw elfennau o drais, ni fyddai unrhyw beth pellach i'r awdurdod lleol ei ystyried a chan gymryd bod popeth arall yn ymwneud â chais a dogfennaeth **S** mewn trefn, gallai'r awdurdod lleol fwrw ymlaen i ganiatáu ei thrwydded triniaeth arbennig.

## Gyrru peryglus

**Mae T yn ymarferydd tyllu'r corff cofrestredig sy'n rhedeg ei busnes llwyddiannus ei hun ers wyth mlynedd. Fe'i cafwyd yn euog 10 mlynedd yn ôl (yn 21 oed) am yrru'n beryglus (ei throsedd gyntaf a'i hunig drosedd). Ni chafodd T ddedfryd o garchar am yr euogfarn honno. Mae'n bwriadu gwneud cais am drwydded triniaeth arbennig pan ddaw'r cynllun trwyddedu i rym.**

Mae'n annhebygol y bydd angen i **T** ddatgan ei heuogfarn flaenorol ar ei ffurflen gais ac ni fydd yn ymddangos ar ei thystysgrif DBS (gan ei bod yn debygol y bydd yr euogfarn wedi ei disbyddu). Felly, ni fyddai gan yr awdurdod lleol unrhyw beth i ymchwilio iddo mewn perthynas ag a ddylai cais **T** am drwydded triniaeth arbennig fynd rhagddo ar sail 'addasrwydd'.

## Camymddwyn proffesiynol

**Mae M yn aciwbigwr/nodwyddwr a therapydd holistaidd. Roedd wedi bod yn nyrs seiciatryddol cofrestredig ond cafodd ei ddileu oddi ar y gofrestr am gamymddwyn proffesiynol yn ymwneud â pherthynas rywiol â chlaf. Ni ddaethpwyd ag unrhyw euogfarnau troseddol gan fod y berthynas, er ei bod yn amhriodol, yn un gydsyniol. Mae M yn gwneud cais am drwydded triniaeth arbennig.**

Gan nad oes unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu am droseddau perthnasol, ni fydd unrhyw wybodaeth o'r fath ar ei dystysgrif DBS ac **nid oes** raid i **M** ddatgan ar ei ffurflen gais ei fod wedi gweithio fel nyrs yn y gorffennol na'i fod wedi bod yn destun achos disgyblu. Felly, ni fyddai gan yr awdurdod lleol unrhyw beth i'w ymchwilio mewn perthynas ag a ddylai ei gais am drwydded triniaeth arbennig fynd rhagddo ar sail 'addasrwydd'.

## Cyflogi gweithwyr anghyfreithlon

Os oes gan unigolyn euogfarn heb ei disbyddu am drosedd sy'n ymwneud â chyflogi gweithwyr anghyfreithlon, mae'n ymddangos na fyddai angen i awdurdodau lleol ystyried yr euogfarn heb ei disbyddu oherwydd ar yr wyneb nid yw'r euogfarn hon yn ymwneud â throsedd berthnasol. Fodd bynnag, pe bai'r drosedd sy'n gysylltiedig â'r euogfarn heb ei disbyddu yn ymwneud â thrais er enghraifft, yna byddai'r euogfarn yn drosedd berthnasol o dan y cynllun trwyddedu triniaethau arbennig a byddai angen i'r awdurdod lleol ystyried hyn fel rhan o'i asesiad o addasrwydd y person i roi triniaeth arbennig.

## Masnachu pobl

Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn drosedd berthnasol yn benodol o dan y cynllun trwyddedu triniaethau arbennig. Fodd bynnag, pe bai euogfarn heb ei disbyddu am drosedd yn ymwneud â masnachu pobl yn cynnwys elfennau o natur rywiol neu dreisgar, er enghraifft, byddai angen i awdurdod lleol ystyried yr euogfarn heb ei disbyddu fel rhan o'i asesiad o addasrwydd y person i roi triniaeth arbennig.

## Gwerthu, cyflenwi neu fewnforio cyffuriau

Dylai awdurdodau lleol fod yn ymwybodol y gallai rhai euogfarnau heb eu disbyddu mewn perthynas â gwerthu, cyflenwi a mewnforio cyffuriau gynnwys elfennau o drais, ac mae trais yn drosedd berthnasol o dan y cynllun trwyddedu triniaethau arbennig. O ganlyniad, byddai angen i awdurdod lleol ystyried yr euogfarn heb ei disbyddu fel rhan o'i asesiad o addasrwydd y person i roi triniaeth arbennig.

## Meithrin perthynas amhriodol

Nid yw troseddau sy'n ymwneud â meithrin perthynas amhriodol yn cael eu hystyried yn droseddau perthnasol yn benodol at ddibenion y cynllun trwyddedu triniaethau arbennig. Fodd bynnag, yn dibynnu ar y manylion a'r materion eraill sy'n gysylltiedig ag euogfarn heb ei disbyddu yn ymwneud â meithrin perthynas amhriodol, (er enghraifft, gallai gynnwys agweddau ar drais neu faterion o natur rywiol) yna byddai angen i'r awdurdod lleol ystyried yr euogfarn heb ei disbyddu fel rhan o'u hasesiad o addasrwydd y person i roi triniaeth arbennig.

## Byrgleriaeth

Er nad yw euogfarn heb ei disbyddu am drosedd sy'n ymwneud â byrgleriaeth yn cael ei rhestru yn drosedd berthnasol yn benodol at ddibenion y cynllun trwyddedu triniaethau arbennig, gall awdurdod lleol ganfod bod yr euogfarn heb ei disbyddu yn ymwneud â thrais. Yn yr achos hwn, byddai angen i awdurdod lleol ystyried yr euogfarn heb ei disbyddu fel rhan o'i asesiad o addasrwydd y person i roi triniaeth arbennig. Nid yw troseddau sy'n ymwneud â byrgleriaeth yn cael eu hystyried yn droseddau treisgar yn gyffredinol, ond o dan rhai amgylchiadau gallai'r drosedd, am ba reswm bynnag, fod wedi arwain at drais.